O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2016 Rhif 130 (Cy. 63)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Pwllgoleulas, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *27 Ionawr 2016* |
| *Yn dod i rym* | *29 Ionawr 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Abergwaun – Bangor (yr A487) ("y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 84(1), (2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 29 Ionawr 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Pwllgoleulas, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2016.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(2)**;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r lluoedd arfog ac sy'n cael ei yrru am y tro gan berson, yn ddarostyngedig i orchmynion gan aelod o'r lluoedd arfog neu'r Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth

(i) ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
(ii) at y diben o hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "lluoedd arbennig" *("special forces")* yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae cynnal eu cymwyseddau'n gyfrifoldeb i Gyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig neu sydd, am y tro, yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Cyfyngiad**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn tua'r gogledd-orllewin o bwynt 162 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd gyda'r ffordd sy'n arwain at Ysbyty Alltwen ger Tremadog, Gwynedd i bwynt 555 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

**Dirymu**

**4.** Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Tremadog, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2006**(3)** a Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Tremadog, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2006 (Amrywiad) 2007**(4)** drwy hyn wedi eu dirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 27 Ionawr 2016

*Richard Morgan*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(2)** 1984 p. 27; amnewidwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 2 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8(2) i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) (mae'r amnewidiadau yn cael effaith drwy O.S. 2013/1682 yn ddarostyngedig i'r darpariaethau arbed a throsiannol a bennir yn adran 15 o Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac Atodlen 8 iddi ac adran 50(5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20)).
**(3)** O.S. 2006/1079 (Cy.111).
**(4)** O.S. 2007/1685 (Cy.144).